
Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg Adroddiad Monitro Blynyddol 2025-26

Medi 2026

nmc
**Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth**

Amdanom ni

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol dros nyrsys a bydwagedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – a reoleiddir a'i gefnogi gan yr NMC – sefydliad addas ar gyfer y dyfodol, gyda thegwch a chydaddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein rôl yw **diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder** yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 860,000 o nyrsys a bydwagedd proffesiynol, mae gennym rôl hanfodol wrth wireddu hyn.

Rydym yn gwneud hyn trwy **osod a hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel** ar gyfer holl nyrsys a bydwagedd cofrestredig a rhai'r dyfodol yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ar ein Cofrestr yn bodloni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir** sy'n diogelu'r cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd i **ymchwilio i bryderon** ac i gymryd camau i **ddiogelu'r cyhoedd** yn yr enghreifftiau cymharol brin lle bydd angen inni gyfyngu ar hawl nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Rydym yn adeiladu NMC newydd â chywirdeb, tegwch, parch, cydraddoleb ac effeithiolrwydd wrth ei graidd.

Rydym yn benderfynol o **wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio**. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

Ein hymrwymiad i'r Iaith Gymraeg

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8), fel y'u hamlinellir gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg ac ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ac eraill i fod yn ymatebol ac yn wybodus yn ein dull o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno ymgysylltu â'r NMC. Rydym yn cydnabod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae gan weithwyr proffesiynol ar ein Cofrestr sy'n gweithio yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod pobl sy'n cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael gofal cyfannol, sy'n canolbwyntio ar y person. I siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, mae hyn yn golygu y dylid gwneud ymdrech i sicrhau bod cynnig gweithredol o Gymraeg fel bod eu hanghenion iaith a gofal yn cael eu diwallu.

Nod yr adroddiad monitro blynyddol hwn yw crynhoi ein cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein gwaith yn y maes hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Llywodraethiant ein Gwaith laith Gymraeg

Mae aelodau'r Cyngor, y tîm Gweithredol a'n holl gydweithwyr yn chwarae rhan wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r laith Gymraeg. Mae goruchwyllo'r gwaith hwn yn eistedd o fewn cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant yr NMC.

Ein Gwaith Iaith Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf

Cais her Safon 20

Mae hi wedi bod yn ofynnol i'r NMC gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) ers 6 Rhagfyr 2023.

Rydym o'r farn ein bod wedi bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau ers y dyddiad hwn, ac eithrio Safon 20, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddatblygu system ar-lein i ganiatáu i geisiadau ymuno â'r Gofrestr gan ymgeiswyr sydd wedi'u hyfforddi yn y DU gael eu cyflwyno yn y Gymraeg. Fe wnaethom gais i ddechrau a chael estyniad i gydymffurfio â'r safon hon erbyn 31 Rhagfyr 2025. Roedd yr estyniad hwn i gyd-fynd â rhaglen moderneiddio gwasanaethau technoleg yr NMC.

Ym mis Ionawr 2026 fe wnaethom gyflwyno her i'r rhwymedigaethau presennol hyn o dan Safon 20. Fe wnaethom herio'r ddyletswydd bresennol hon yng ngoleuni'r newidiadau diweddar yn amgylchiadau ariannol yr NMC. Yn ein her i Gomisiynydd y Gymraeg, fe wnaethom dynnu sylw at y rhaglen ddiweddar o ailstrwythuro mewnol ac effeithlonrwydd, yn ogystal â'n hymgyngghoriad ar gynlluniau i gynyddu'r ffioedd cofrestru ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar ein Cofrestr. Yn y cyd-destun hwn, nodwyd bod yr NMC wedi gorfod blaenoriaethu darparu gwerth am arian, a defnyddio ein hincwm gan gofrestrwyr yn gyfrifol.

Gwnaed y cais her yn y cyd-destun hwn. Ers mis Rhagfyr 2023, rydym wedi cynnig fersiwn Gymraeg y gellir ei lawrlwytho o ffurflen gofrestru'r DU, y gall ymgeiswyr ei defnyddio os ydynt yn dymuno ymuno â'r Gofrestr gan ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i hwyluso ceisiadau cofrestru i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Ers mis Rhagfyr 2023, nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau i ymuno â'r Gofrestr gan ddefnyddio'r Gymraeg. Fe wnaethom gynnig yn ein cais her, oherwydd y nifer minimol tebygol o geisiadau, a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â datblygu fersiwn Gymraeg cyfatebol o'r system ar-lein, nad oedd y safon hon yn gymesur.

Er ein bod yn cydnabod nad yw'r fersiwn bresennol y gellir ei lawrlwytho o'r ffurflen gofrestru yn sicrhau profiad union debyg i ymgeiswyr, ni fydd y rhai sy'n dymuno cofrestru gan ddefnyddio'r Gymraeg dan anfantais uniongyrchol gan y byddant yn dal i allu cael mynediad i'n gwasanaethau ac ymuno â'r Gofrestr gan ddefnyddio'r Gymraeg, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg ein her fod y safon hon yn anghymesur. Mae ein **hysbysiad cydymffurfiaeth** wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu nad yw Safon 20 yn gymwys, ar yr amod fod fersiwn lawrlwythadwy o'r ffurflen gais cofrestru Gymraeg ar gael. Mae'r ffurflen hon ar gael **ar ein gwefan**.

Hunanasesiad blynyddol

Ym mis Ionawr 2026 gwnaethom gwblhau ein hunanasesiad blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau. Fe wnaethom ddatgan lefel uchel o sicrwydd ar gyfer y rhan fwyaf o safonau, gan ein bod wedi ymgymryd â gwaith sylweddol yn y blynyddoedd blaenorol i sicrhau bod pob tîm yn barod i ymateb i geisiadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae llawer o'r safonau heb eu profi oherwydd nifer isel o geisiadau, fodd bynnag, rydym yn fodlon fod prosesau a chanllawiau ar waith i ymateb yn unol â hynny pe baem yn derbyn ceisiadau i gael mynediad i'n gwasanaethau gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Ar gyfer y safonau sy'n ymwneud â gwefannau, gwnaethom ddatgan lefel ganolig o sicrwydd oherwydd yr ymagwedd gymesur yr ydym wedi'i chymryd o gyfieithu tudalennau gwefannau. Mae hyn yn golygu bod dolenni i dudalennau gwefan ar gael yn y Saesneg yn unig ar rai o'n tudalennau gwe sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Yn ein hunanasesiad fe wnaethom gydnabod bod angen diweddarau llawer o dudalennau gwe yr NMC, a byddwn yn ystyried ar yr adeg honno a oes angen cyfieithu ychwanegol. Mae gennym ganllawiau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cydweithwyr yn y maes hwn, sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa arfaethedig a phwrrpas y deunyddiau, ac a yw'r rhain yn awgrymu bod angen cyfieithu i'r Gymraeg.

Fel rhan o'n hadroddiadau cofrestru data pob dwy flynedd, gwnaethom hefyd gynhyrchu cyhoeddiad pwrpasol ar gyflwr y Gofrestr yng Nghymru, sydd ar gael yn y **Gymraeg** a'r **Saesneg**. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â faint o bobl sy'n ymuno â'r proffesiynau ac yn gadael y proffesiynau, ble cawsant eu haddysgu, eu nodweddion demograffig, a pham y gadawodd pobl y Gofrestr.

Ymgynghoriadau

Yn 2025-26 gwnaethom gyhoeddi dau ymgynghoriad lle gwnaethom geisio barn gan weithwyr proffesiynol, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch cynnydd arfaethedig i ffi gofrestru flynyddol yr NMC, a newidiadau arfaethedig i'n Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.

Fe wnaethom ddarparu fersiynau Cymraeg o'r dogfennau ymgynghori hyn a darparu'r opsiwn i ddefnyddio'r Gymraeg i ymateb i'r arolygon ymgynghori hyn. Cawsom sawl ymateb i'r arolygon hyn (llai na phump) a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Monitro data blynyddol

Mae Safon 66 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r NMC ddarparu data yn yr adroddiad blynyddol hwn ar y meysydd canlynol:

1. Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg
2. Nifer y cydweithwyr sy'n datgan sgiliau iaith Gymraeg a lefelau eu sgiliau
3. Nifer rolau gwag neu newydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol.

Ar gyfer y cyfnod o **1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026**, gallwn ddarparu'r data canlynol:

1. Ni dderbyniwyd cwynion mewn perthynas â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg
2. Roedd pum cydweithiwr wedi datgan sgiliau iaith Gymraeg. Datganodd tri o'r rhain hyfedredd lefel A1 CEFR, un hyfedredd lefel A2 CEFR, a datganodd un hyfedredd lefel B2 CEFR. Mae hyn yn ddau gydweithiwr yn fwy na'r sgiliau a ddatganwyd yn 2024-25
3. Nid oedd unrhyw swyddi gwag neu newydd wedi'u hysbysebu lle mae angen sgiliau Cymraeg.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom gasglu data ychwaanegol ynghylch ein darpariaeth iaith Gymraeg:

- Roedd 43 darn o waith prosiect corfforaethol yn gofyn am gyfieithiad Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys prif adroddiadau, fersiynau Cymraewg hawdd i'w darllen, a cheisiadau ad-hoc am gyfieithiadau
- Roedd 1670 o ymweliadau â gwefan iaith Gymraeg yr NMC. Roedd 1721 o ymweliadau yn 2024-25
- Cafodd tri chyfarfod/digwyddiad eu cynnal lle cynigiwyd cyfieithiadau a/neu ddehongliadau Cymraeg.

Camau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf

Byddwn yn parhau i gasglu data monitro Cymraeg i gynnal goruchwyliaeth o'n cydymffurfiaeth â'r safonau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg ychwanegol yn cael eu cwblhau mewn perthynas â'n prosiectau mawr a'n gwaith datblygu polisi. Mae'r gofyniad i gwblhau Asesiad Effaith Iaith Gymraeg ac ystyried effeithiau ar y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei amlygu mewn fframweithiau rheoli prosiectau, yn ogystal â mewn templedi ar gyfer papurau i'w cyflwyno i'r Cyngor.

Mae ein prif flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer 2026-27 yn cynnwys adolygiad o ddysgu ymarfer, ac ymgynghori ar newidiadau i'n Cod a'r broses Ailddilysu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, a fydd yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Trwy gydol y gwaith hwn byddwn yn sicrhau ein bod yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn unrhyw un o'n hymgysylltiadau â'r cyhoedd yng Nghymru ac yn sicrhau bod effeithiau a chyfleoedd i'r Gymraeg yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu a diweddarau polisiâu.

Mae Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg wedi cael eu datblygu ar gyfer ymgynghoriadau ar y newidiadau hyn, a bydd y rhain ar gael ar ein gwefan, ynghyd â dogfennau ymgynghori a fydd hefyd yn cael eu darparu yn y Gymraeg. Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn y Gymraeg, a byddwn hefyd yn ceisio barn rhanddeiliaid yng Nghymru ar y newidiadau hyn, ac unrhyw effeithiau a chyfleoedd i'r iaith Gymraeg.

Rydym yn parhau i ymrwymo i ymgysylltu â fframwaith rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg ac yn edrych ymlaen at gynnig ein barn trwy eu dull cydreoleiddio, a chwblhau hunanasesiad o'n cydymffurfiaeth yn erbyn y safonau. Byddwn yn parhau i wneud ein gwasanaethau yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg ac yn cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Gweithgaredd ymgysylltu diweddar yng Nghymru

Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg, rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd o **1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026**, ymunodd yr NMC ag amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid iechedd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Er bod ein gwaith gyda rhanddeiliaid iechedd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei gynnal yn y Saesneg yn bennaf, mae'r ymgysylltiad hwn yn darparu cyfleoedd i ddeall y cyd-destun yn well i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yng Nghymru. Yn benodol, edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid hyn i ddeall cyd-destun y Gymraeg yn well ar gyfer iechedd a gofal cymdeithasol, a sut y gellir hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yng Nghymru.

Ymgysylltu trawsreoleiddiol ar Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg

Trwy gydol 2025, ymunodd yr NMC â chyfarfodydd rheolaidd Fforwm Cydreoleiddwyr Safonau'r Gymraeg, lle rydym yn trafod ein dulliau priodol o weithredu'r safonau a'n dealltwriaeth o sut i gymhwyso'r safonau yng nghyd-destun rheoleiddio gweithwyr iechedd a gofal proffesiynol.

Rhanddeiliaid sector iechyd a gofal cymdeithasol

Rydym wedi parhau â'n hymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ymgysylltiadau hyn yn cynnwys:

- Siaradodd Paul Rees, Donna O'Boyle a chydweithwyr Rheoleiddio Proffesiynol mewn digwyddiad ar 'Cefnogi Gweithwyr Cofrestredig NMC drwy Lens Niwed i Weithwyr y gellir ei Osgoi' a drefnwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaG) yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
- 42 o sesiynau dysgu wedi eu cyflawni mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru gan ein Gwasanaeth Dolen Cyflogwyr
- Saith sesiwn ddysgu ychwanegol a gyflawnwyd i fydwragedd, cyrff cynrychioladol bydwreigiaeth a myfyrwyr bydwreigiaeth
- Pedair sesiwn gydweithredol gyda'r GMC gan gynnwys un gynhadledd lles mamolaeth, a thair sesiwn beilot mewn gwasanaeth mamolaeth/amededigol mewn Bwrdd Iechyd yng Nghymru ar 'Empathi ar Waith,' y cyntaf i gael ei threialu yn y DU
- Datblygu sesiynau pwrpasol wedi'u cynllunio i fydwragedd mewn un uned famolaeth Bwrdd Iechyd
- Cyfraniad parhaus yn Uwchgynhadledd Gofal Iechyd Cymru bob dwy flynedd dan gadeiryddiaeth AGIC, a chyfraniad at Weithgor Uwchgynhadledd Gofal Iechyd Cymru i gryfhau effaith ac effeithiolrwydd yr Uwchgynhadledd
- Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol grŵp Tasg a Gorffen Disgyblaethol a Chwynion Gofal Cymdeithasol
- Grŵp Gwaith Addasrwydd i Ymarfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu canllawiau trosfwaol Addasrwydd i Ymarfer i staff clinigol sy'n cynorthwyo myfyrwyr nyrsio israddedig
- Gŵyl Famolaeth a Bydwreigiaeth Cymru a'r De-orllewin
- Digwyddiad Dysgu Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cynhadledd Myfyrwyr Bydwreigiaeth Cymru Gyfan
- Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi RCM Cymru.

Cymdeithion Nyrsio yng Nghymru

Yn dilyn cytundeb y Cyngor i reoleiddio rôl Cydymaith Nyrsio yng Nghymru ym mis Mawrth 2024, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar reoleiddio cymdeithion nyrsio yng Nghymru, yn amodol ar y newidiadau angenrheidiol i'n deddfwriaeth.

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

 @nmcuk

 @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).